**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L R Jones | M A Langstone | S Pritchard |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rob Davies | Pennaeth yr Uned Cyfnod Uwchradd |
| Sue edgar | Pennaeth yr Uned Cyfnod Cynradd |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice a/ac M Durke

---

## 23 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw gysylltiadau.

## 24 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018 fel cofnod cywir.

## 25 Clybiau ar ôl Ysgol. (Trafodaeth)

Nododd y Cadeirydd, mewn perthynas â thynnu sylw at y mater yn y cyfarfod blaenorol, fod yr eitem wedi'i rhoi ar yr agenda er mwyn i aelodau ei thrafod ymhellach a chael mewnbwn swyddogion perthnasol o'r Adran Addysg.

Nododd Sue Edgar fod y sector cynradd yn rhoi gwerth mawr ar glybiau ar ôl ysgol (CAY). Dywedodd y bydd y ddarpariaeth ar ôl ysgol yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cael ei chydlynu'n ofalus ar ddechrau'r flwyddyn ysgol gan yr Uwch-grŵp Arweinyddiaeth.

Dywedodd fod athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cefnogi eraill yn cyflawni rôl hanfodol wrth ddarparu CAY. Efallai bydd peth cymorth allanol yn cael ei ddarparu

gan rieni/neiniau a theidiau/gwirfoddolwyr etc., ond darperir y rhan fwyaf o glybiau a gweithgareddau'n wirfoddol gan staff yr ysgol.
Dywedodd Rob Davies y byddai darpariaeth clybiau yn y sector uwchradd yn cael ei rhannu rhwng amser cinio ac ar ôl ysgol. Bydd mathau amrywiol o glybiau a grwpiau megis adolygu, astudio, dal i fyny, gwaith cartref, chwaraeon, drama etc. Dywedodd yn y sector uwchradd fod CAY a gweithgareddau ymyriad/dal i fyny'n gyffredinol yn hanfodion gwahanol, er bod rhywfaint o orgyffwrdd. Byddai sesiynau astudio/adolygu ar ôl ysgol fel arfer yn anffurfiol ac ni fyddai presenoldeb yn orfodol. Fodd bynnag, disgwylid i ddisgyblion fod yn bresennol ar gyfer sesiynau ymyriad/dal i fyny, a byddai sesiynau fel arfer yn cael eu cynnal yn ystod y diwrnod ysgol a gellid olrhain cynnydd disgyblion yn agosach.

Pwysleisiodd hefyd fod y rhan fwyaf o ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd hefyd yn cael ei darparu'n wirfoddol gan staff, a gall hyn gynnwys dosbarthiadau adolygu yn ystod y gwyliau ysgol.

Crybwyllodd y bwriad i wella ansawdd "addysgu gyntaf" a'r angen i olrhain disgyblion sydd ar ei hôl hi'n well, er mwyn targedu cefnogaeth a chymorth ar eu cyfer yn well.

Dywedodd, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn, y caiff mwy o bwyslais ei roi ar glybiau adolygu/astudio i gynorthwyo gyda pharatoi ar gyfer arholiadau.

Trafododd aelodau'r materion a'r pynciau a gododd o fewnbwn y swyddogion, a gofynnwyd cwestiynau amrywiol a oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Beth yw'r cydbwysedd a'r rhaniad rhwng darpariaeth clybiau ar draws y sir yn y 3 maes canlynol - sgiliau cymdeithasol, cyfoethogi'r cwricwlwm a chefnogaeth astudio;
- Effaith tiwtora preifat ar ganlyniadau arholiadau a'r effaith ddilynol ar ddisgyblion na allant fforddio tiwtora preifat ynghyd â'u canlyniadau.
- Angen annog plant y mae angen help ychwanegol arnynt i ddod i glybiau astudio/adolygu;
- Cost ac oriau gweithredu CAY;
- Pwysigrwydd cynnal yr ewyllys da presennol a chydweithrediad athrawon a staff eraill yr ysgol, a'r angen i amlinellu a hybu pa mor ddiolchgar y mae’r awdurdod/rhieni/disgyblion am y swm enfawr o ddyletswyddau gwirfoddol yr ymgymerir â nhw ac a ddarperir;
- Argaeledd cludiant ysgol am ddim yn dilyn CAY a'i effaith ar bresenoldeb os nad yw ar gael;
- Angen cael disgyblion sy'n cyflawni'n uwch i ymgymryd â rolau mentora a chefnogi ar gyfer cyd-ddisgyblion;
- Angen posib i ddatblygu rhwydweithiau clwstwr a nodi arfer da a/neu arbenigedd i alluogi ysgolion i ddarparu clybiau/gweithgareddau na fyddent yn eu darparu fel arall;
- Sut ddarpariaeth sydd ar gael mewn awdurdodau eraill o'i chymharu ag Abertawe.

Trafododd y swyddogion y materion a godwyd gan ymateb yn unol â hyn. Dywedon nhw y byddent yn ceisio cydlynu'r wybodaeth am lefel y ddarpariaeth ym mhob ysgol

drwy eu rhwydweithiau a'u cyfarfodydd proffesiynol a'u cysylltiadau mewn ysgolion, ac y byddent yn adrodd yn ôl maes o law.

**26 Adolygu'r dystiolaeth/gwybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor hyd yma. (Llafar)**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfodydd amrywiol a gynhaliwyd ers dechrau'r flwyddyn ddinesig ym mis Mai ac amlinellodd y materion a drafodwyd a'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y pwyllgor, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- Tueddiadau data ar gyfer disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim;
- Y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) a'r Premiwm Disgybl;
- Yr angen i ysgolion ddefnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- Pecyn Cymorth y Sefydliad Gwaddol Addysg;
- Ymagwedd ysgol gyfan;
- Ymagwedd disgybl.

Trafododd aelodau'r angen i fonitro'n well sut caiff arian ei wario mewn ysgolion a'r angen i gyferbynnu a chymharu sut dyrennir yr arian ledled yr awdurdod.

Amlinellwyd a thrafodwyd eto’r posibilrwydd o wneud gwariant y GDD yn eitem safonol ar agendâu Cyrff Llywodraethu, a/neu drefnu bod llywodraethwr yn gyfrifol am y mater, yn debyg i drefniadau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, bwlio etc.

Trafodwyd y posibilrwydd o ddatblygu canllawiau "arfer da" a gwybodaeth i Gyrff Llywodraethu am wariant y GDD ynghyd â'r defnydd o'r pecyn cymorth fel canlyniad posib ar gyfer yr adolygiad. Derbyniodd aelodau y gallai unrhyw ganllawiau arfer da fod yn rhai ymgynghorol eu natur yn unig ar gyfer ysgolion.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cael mwy o drafodaethau â'r Cyfarwyddwr Addysg ar y materion a godwyd yn ystod y cyfarfod ac yn adrodd yn ôl i gyfarfodydd y dyfodol.

**27 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Amlinellodd y Cadeirydd gynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn ddinesig 2018/2019.

Caiff y pwnc clybiau ar ôl ysgol ei drafod ymhellach yn y flwyddyn newydd yn dilyn yr ymchwil a'r ymgynghoriad angenrheidiol gan swyddogion.

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith fel y'i dangosir yn yr adroddiad

Daeth y cyfarfod I ben am 4.49 pm

**Cadeirydd**